# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR ABERDYFI**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD MAWRTH, 17EG HYDREF, 2023**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol - Zoom**

**(am fynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni)**

Pwynt Cyswllt

**Ffion Elain Evans**

**ffionelainevans@gwynedd.llyw.cymru**

(DOSBARTHWYD Dydd Llun, 9 Hydref 2023)

## AELODAETH:

### Cyngor Gwynedd:

| | |
|---|---|
| Anne Lloyd-Jones | Aelod Lleol Gorllewin Tywyn |
| Dewi Owen | Aelod Lleol Aberdyfi |
| John Pughe | Aelod Lleol Morfa Tywyn |

### Aelodau Cyfetholedig:

| | |
|---|---|
| David Williams | Pwyllgor Gwelliannau a Hysbysebu Aberdyfi |
| Huw Evans | Aelod o Gymdeithas Pysgodfeydd Bae Ceredigion |
| Nigel Willis | Aelod o Glwb Cychod Aberdyfi |
| Desmond George | Aelod o Glwb Hwylio Dyfi |
| Al Crisp | Outward Bound Trust Wales |
| Guy Shaw | Clwb Rhwyfo Aberdyfi |
| Freddie Collier | RNLI Aberdyfi |

### Sylwedyddion:

| | |
|---|---|
| Nia Wyn Jeffreys | Aelod Cabinet Datblygu’r Economi |
| Gwilym Jones | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog |

# RHAGLEN

## 1. ETHOL CADEIRYDD

Ethol Cadeirydd ar gyfer 2023/24.

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

Ethol Is-Gadeirydd ar gyfer 2023/24.

## 3. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 5. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 6. COFNODION 4 - 7

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn, a gynhaliwyd ar y 21ain o Fawrth 2023, fel rhai cywir.

## 7. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR 8 - 18

Cyflwyno adroddiad yr Uwch Swyddog Harbyrau.

## 8. MATERION I'W HYSTYRIED AR GAIS AELODAU'R PWYLLGOR YMGYNGHOROL

Ystyried y materion canlynol a godwyd gan aelodau'r pwyllgor ymgynghorol:

- Y cynllun rheoli ar gyfer symud tywod o lithrfa'r harbwr
- Diweddariad ar gyflwr pen y llithrfa

## 9. DYDDIAD CYFARFOD NESAF

Nodi y cynhelir cyfarfod nesaf Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi ar 12fed o Fawrth 2024.

# PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR ABERDYFI, 21 MAWRTH 2023

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr Gwynedd:** Y Cynghorydd Robert Dewi Owen (Cadeirydd).
Y Cynghorydd John Pughe (Is-Gadeirydd) ac
Y Cynghorydd Anne Lloyd Jones.

**Aelodau Cyfetholedig:** Josh Cooper (RNLI Aberdyfi), David Williams (Pwyllgor Gwelliannau a Hysbysebu Aberdyfi), Desmond George (Aelod o Glwb Hwylio Dyfi), Al Crisp (Outward Bound Trust Wales) a Nigel Willis (Aelod o Glwb Cychod Aberdyfi).

**Sylwedyddion:** Y Cynghorydd Nia Wyn Jeffreys (Aelod Cabinet Datblygu'r Economi) ac Gwilym Jones (Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog).

**Swyddogion yn bresennol:** Llyr Beaumont Jones (Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned), Bryn Pritchard-Jones (Rheolwr Gwasanaeth Morwrol), Arthur Francis Jones (Uwch Swyddog Harbyrau) William Arthur Stockford (Harbwrfeistr Aberdyfi) a Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r cyfarfod hwn a gynhaliwyd ar 25 Hydref 2022, fel rhai cywir.

**5. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR**

Cyflwynwyd yr adroddiadau isod, a gwahoddwyd yr Aelodau i gynnig sylwadau am eu cynnwys a gofyn cwestiynau.

**Adroddiad yr Uwch Swyddog Harbyrau yn rhoi diweddariad cryno i'r pwyllgor ar faterion yr harbwr ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben Mawrth 2023.**

**Angorfeydd Aberdyfi a Chofrestru Cychod**

- Adroddwyd y byddai Aberdyfi Marine Services yn darparu gwasanaeth contractio angorfeydd newydd eleni. Eglurwyd bod y gwasanaeth hwn yn ychwanegol i'r gwasanaeth angori sy'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd gan gwmni Underwater Maintenance and Inspections Services, sydd wedi bod yn weithredol yn Harbwr Aberdyfi ers sawl blwyddyn.

- Cadarnhawyd byddai'r system gofrestru Cychod Pŵer a Chychod Dŵr Personol Cyngor Gwynedd yn parhau i gael ei weinyddu drwy drefniant ar-lein. Ychwanegwyd bydd modd i gwsmeriaid defnyddio system ar-lein er mwyn talu am eu hangorfa.

**Côd Diogelwch Morol Phorthladdoedd**

- Adroddwyd bydd Cod Diogelwch Morol yr harbwr yn cael ei adolygu eleni yn ogystal â datblygu asesiadau risg newydd yn sgil datblygiadau wal cei newydd ar gyfer yr harbwr.
- Eglurwyd bydd 'Merchant Shipping (Watercraft) Order 2023' yn dod yn weithredol ar 31 Mawrth eleni. Bydd y ddeddfwriaeth hon yn sicrhau bod perchnogion badau dŵr personol yn defnyddio'u peiriannau yn ddiogel. Ymhelaethwyd bod swyddogion yr harbwr yn cydweithio'n agos gyda Heddlu Gogledd Cymru er mwyn sicrhau dealltwriaeth o brosesau perthnasol yn sgil cyflwyno'r ddeddfwriaeth hon.
    - Mewn ymateb i ymholiad ar hyfforddiant badau dŵr personol, cadarnhawyd gan Harbwrfeistr Aberdyfi bod hyfforddiant 'Waterwise Marine' ar gael ym Mhwllheli a Phorthmadog. Ymhelaethwyd na fyddai badau dŵr personol yn gallu cael eu lansio o'r harbwr os nad oedd yswiriant dilyn arno. Er hyn, cadarnhawyd nad oedd yn ofynnol i berchnogion brofi eu bod wedi hyfforddiant ar sut i'w drin yn gywir.
    - Pwysleisiwyd pwysigrwydd bod unigolion yn cymryd rhif cofrestru unrhyw badau dŵr personol maent yn gweld yn torri rheolau a'u riportio i staff yr harbwr.
    - Rhoddwyd ystyriaeth i harbyrau ac awdurdodau cyfagos. Nodwyd er nad oes modd atal unigolion rhag lansio eu badau personol tu hwnt i'r harbwr, mae cwch yr harbwr yn teithio rhwng Tywyn ac Aberdyfi er mwyn annog pobl i aros yn saff a rhannu gwybodaeth. Nid oes sicrwydd os oes rheolau llym ar gofrestru badau dŵr personol yng Ngheredigion ar hyn o bryd ond gobeithir parhau i gydweithio gyda'r awdurdod i'w annog i'w fabwysiadu.
    - Soniwyd bod hyfforddiant padl fyrddau ar gael yn y Clwb Rhwyfo. Er hyn, pwysleisiwyd ei fod yn hawdd iawn i unrhyw unigolyn brynu padl-fwrdd ac felly mae'n rhaid bod yn wyliadwrus o'u defnyddwyr.

**Materion Staffio**

- Croesawyd y Rheolwr Gwasanaeth Morwrol i'r cyfarfod a llongyfarchwyd ar ei benodiad diweddar.
- Adroddwyd nad oedd newidiadau ar faterion staffio yn y cyfnod diwethaf a chadarnhawyd bod yr Harbwrfeistr a'i gymhorthydd wedi ymgymryd â rhaglen o waith cynnal a chadw dros y gaeaf.

**Materion Ariannol**

- Adroddwyd bod gorwariant wedi bod mewn rhai meysydd eleni megis costau staff a chostau'r cwch a cherbydau. Er hyn, mae tanwariant wedi bod ym meysydd eiddo ac offer a chelfi. Cadarnhawyd bod £10,251 o incwm ychwanegol wedi cyrraedd yr harbwr eleni i'r hyn a rhagdybiwyd ar ddechrau'r flwyddyn ariannol. Ystyriwyd bod yr incwm hwn ar gyfer yr harbwr yn deillio o newid diweddar mewn prisiau yn ogystal â mwy o ddefnydd cyffredinol i'r harbwr.
- Cadarnhawyd y rhagwelir tanwariant o £13,773 yn y flwyddyn ariannol hon. Er hyn, cadarnhawyd bod modd i'r cyfanswm hyn ddiwygio.
- Eglurwyd mai'r bwriad yw cadw'r arian o'r tanwariant hwn yn yr ardal ond nid ellir rhoi sicrwydd bod modd gwneud hyn. Manylwyd bod rhaid i'r swyddogion edrych ar sefyllfa harbyrau eraill y sir cyn gwneud penderfyniad. Atgoffwyd yr aelodau mai dyma'r trefniant ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ddiwethaf pan wnaeth yr harbwr dderbyn £14,000 o harbyrau eraill i gynorthwyo gyda chostau eiddo.

- Rhoddwyd manylder ar ffioedd yr harbwr am y flwyddyn ariannol nesaf. Manylwyd bod ffioedd yn cynyddu yn unol â chyfraddau chwyddiant y wasgfa ariannol bresennol o 8.5%. O ganlyniad, cadarnhawyd bod targedau incwm yr harbwr wedi cynyddu 8.5% hefyd. Cadarnhawyd rhai o ffioedd eraill yr harbwr:
    - Ffi cofrestru badau pŵer am flwyddyn - £60 (cynnydd o £10)
    - Ffi lansio blynyddol (gan gynnwys ffi cofrestru) - £170 (cynnydd o £20)
    - Ffioedd lawnsio - £20
    - Ffioedd lawnsio cychod llai nag 10hp - £35 (cynnydd o £5)

**Adroddiad yr Harbwr Feistr yn crynhoi'r materion Mordwyo a Gweithredol a wnaed ac a brofwyd yn y cyfnod rhwng mis Hydref 2022 a Mawrth 2023, gan gynnwys materion cynnal a chadw.**

**Materion Mordwyo**

- Adroddwyd bod mwy o dywod wedi chwythu ger Penhelyg gan achosi i'r harbwr golli rhai lleoliadau angori.
- Eglurwyd bod un Hysbysiad Lleol i Forwyr mewn grym yn Harbwr Aberdyfi. Mae'n hanfodol bod Morwyr yn mordwyo'n ofalus yn yr ardal hon.
- Nodwyd bod gwaith adnewyddu ar Gymhorthydd Mordwyo 5 wedi ei gwblhau yn ddiweddar a gobeithir bydd y bwi yn cael ei ddefnyddio mor fuan â phosibl.
- Cadarnhawyd bod Tŷ'r Drindod wedi ymweld â'r harbwr yn mis Ionawr 2023 er mwyn cynnal archwiliad o gofnodion o argaeledd y cymhorthion mordwyo lleol. Esboniwyd bod canlyniad yr archwiliad yn nodi bod popeth mewn trefn ac nid oedd unrhyw faterion yn codi sydd angen sylw pellach.

**Materion Gweithredol**

- Diolchwyd i holl ran-ddeiliaid lleol, adran Ymgynghoriaeth Cyngor Gwynedd a'r contractwr ar y safle , i sicrhau bod arferion gwaith diogel yn parhau yn yr harbwr wrth i'r gwaith adeiladu diweddar gael ei gynnal ar y safle.
- Tynnwyd sylw at gyflwr strwythurol pryderus adeilad swyddfa'r harbwrfeistr a bod adran Eiddo Cyngor Gwynedd wedi cynnal archwiliad diweddar ohono.

**Cynnal a Chadw**

- Adroddwyd bod staff yr harbwr wedi bod yn cynnal a chadw'r ffensio ar yr ynys i helpu pobl sy'n cerdded at y blaendraeth yn dilyn cwblhad prosiect i adnewyddu'r bont doed dros Rheilffordd Arfordir y Cambrian.
- Eglurwyd bod y Gwasanaeth wedi cymeradwyo adnewyddu giatiau yn adwy gerddi Penhelyg yn ddiweddar.

**Materion Eraill**

- Trafodwyd sefyllfa bryderus lefelau'r tywod ar y traeth sy'n effeithio ar lithrfa'r Bad Achub. Eglurwyd bod lefelau tywod wedi bod yn cynyddu ers peth amser a rhannwyd syniadau ar sut i ddelio gyda'r broblem a'i atal rhag gwaethygu eto yn y dyfodol.
- Rhannwyd bwriad i benodi staff tymhorol ar y traeth. Gobeithir penodi dau aelod o staff erbyn diwedd mis Mai. Ystyrir cael caban newydd i'r staff ei ddefnyddio yn ystod y tymor.

**Digwyddiadau**

- Cadarnhawyd bod Clwb Hwylio Dyfi wedi derbyn caniatâd ar gyfer eu rhaglen hwylio a hyfforddi a gyflwynwyd i swyddfa'r harbwr ym mis Chwefror.

**PENDERFYNWYD**

**Nodi a derbyn yr adroddiadau.**

**6. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

**Cadarnhawyd bod y cyfarfod nesaf ar y 17eg o Hydref 2023.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30am a daeth i ben am 12:15

________________________________________

(Cadeirydd)

# Eitem 7

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi** |
| **DYDDIAD** | **17 Hydref 2023** |
| **TEITL** | **Diweddariad ar Faterion Rheoli'r Harbwr** |
| **AWDUR** | **Uwch Swyddog Harbyrau** |

**1. Cyflwyniad.**

1.1 Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw ystyried, trafod a chynghori ar faterion sy'n ymwneud â rheoli, diogelu a datblygu'r Harbwr a derbyn sylwadau'r Aelodau ar faterion sy'n ymwneud â Harbwr Aberdyfi.

1.2 Diben yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad bras i'r Pwyllgor ar faterion yr harbwr ar gyfer y cyfnod rhwng mis Mawrth 2023 a mis Hydref 2023, er mwyn derbyn adborth gan yr aelodau ar faterion diogelwch a materion gweithredol yr Harbwr.

1.3 Sefydlwyd Pwyllgorau Harbwr Abermaw, Aberdyfi a Phwllheli dan adran 102(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae Pwyllgor Harbwr Porthmadog yn Bwyllgor Harbwr statudol, a sefydlwyd yn unol ag Adran 6(2) (a-j) Gorchymyn Addasu Harbwr Porthmadog 1998.

**2. Angorfeydd Aberdyfi a Chofrestru Cychod.**

2.1 Mae 73 o gychod wedi bod ar angorfeydd blynyddol yn harbwr Aberdyfi yn 2023. Mae hyn yn cymharu â 72 o gychod ar angorfeydd yn 2022.

2.2 Mae nifer y cwsmeriaid angori yn harbwr Aberdyfi wedi aros bron yr un fath a'r llynedd, heblaw am gynnydd o un cwsmer ychwanegol. Gobeithir y bydd y cynnydd yma yn parhau yn 2024. Mae'r sefyllfa economaidd gyffredinol ac yn benodol, y costau byw presennol, yn dal i fod yn ffactor wrth ddenu cwsmeriaid i'r harbwr.

2.3 Gyda nifer fechan o eithriadau, mae'r rhan fwyaf o'r cyhoedd sy'n dymuno lansio cychod pŵer i ddyfroedd Arfordir Gwynedd bellach yn cofrestru eu cychod pŵer ar-lein, drwy wefan Cyngor Gwynedd. Yn cynnwys y rhai a gofrestrodd ar bapur, cofrestrwyd 1269 o gychod pŵer a 1240 o fadau dŵr personol yng Ngwynedd y tymor hwn.

**3. Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd.**

3.1. Mae'r Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd (PMSC) yn amlinellu'r safon genedlaethol ar gyfer pob agwedd o ddiogelwch morol porthladdoedd. Ei nod yw gwella diogelwch i bawb sy'n defnyddio neu'n gweithio yn amgylchedd morol porthladdoedd. Mae'n berthnasol i bob Awdurdod Harbwr Statudol.

Mae'r Cod yn cynrychioli arfer dda a gydnabyddir gan ystod eang o ran-ddeiliaid yn y diwydiant ac mae Cyngor Gwynedd yn deall y gall peidio â chadw at arfer dda fod yn arwydd o awdurdod harbwr sy'n torri dyletswyddau cyfreithiol penodol.

3.2 Mae'r Gwasanaeth yn adolygu'r Cod Diogelwch Morol yn rheolaidd ar gyfer yr harbyrau dan ei awdurdodaeth er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i gydymffurfio'n llawn â gofynion presennol y Cod. Fel rhan o'r broses adolygu, mae'n angenrheidiol derbyn sylwadau a barn Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol ar ba mor addas yw'r Cod Diogelwch Morol ac i dderbyn sylwadau'n rheolaidd ar ei gynnwys, gan gyfeirio'n benodol at weithgarwch yr harbwr, cymhorthion mordwyo, addasrwydd is-ddeddfau, materion diogelwch a'r gwaith dydd-i-ddydd cyffredinol yn Harbwr Aberdyfi.

**4. Materion Staffio.**

4.1 Nid yw'r lefel staffio yn harbwr Aberdyfi wedi newid ers yr adroddiad diwethaf i'r Pwyllgor, gyda'r Harbwrfeistr, Mr William Stockford, yn cael ei gefnogi gan ei gymhorthydd, Mr Oli Simmons. Yn ystod beth fu'n haf prysur, mae staff yr harbwr hefyd wedi cynorthwyo ac wedi gweithio gyda staff yn Nhywyn, harbwr Abermaw ac ar y traeth ym Morfa Bychan.

4.1 Mae'r Gwasanaeth hefyd yn gallu galw ar staff sydd wedi'u lleoli yn harbyrau Abermaw a Phorthmadog i gynorthwyo gydag unrhyw waith yn harbwr Aberdyfi os oes angen.

4.2.1 Mae'r Gwasanaeth yn werthfawrogol iawn o'r gwaith a wnaed gan y wardeiniaid traeth tymhorol fu'n gweithio yn Aberdyfi a Thywyn drwy gydol yr haf prysur.

**5. Materion Ariannol.**

5.1 Bydd y Prif Swyddog Morwrol yn darparu crynodeb bras o gyllideb yr harbwr a'r sefyllfa ariannol bresennol hyd at ddiwedd y chwarter.

5.2 Yn ystod y cyfnod hwn bu rhaid ymrwymo adnoddau ariannol ar gyfer yr hyn a ganlyn;

- Cynnal a chadw cymhorthion mordwyo a goleufeydd
- Prynu a chynnal a chadw offer a chyfarpar yr harbwr
- Archwilio a chynnal a chadw angorfeydd y Cyngor
- Cynnal a chadw a gweithredu cwch patrôl Powercat yr Harbwr, gan gynnwys Buddsoddiad i gynnal a chadw'r cwch er mwyn cydymffurfio â gofynion Cod Ymarfer yr Awdurdod Morwrol a Gwylwyr y Glannau.
- Cynnal a chadw tiroedd a meinciau

5.3 **Ffioedd a Thaliadau. 2024/25.**

O ran y ffïoedd a thaliadau arfaethedig ar gyfer Harbwr Aberdyfi, ynghyd â'r ffioedd lansio ar gyfer Cychod Pŵer a Badau Dŵr Personol ar gyfer tymor 2024/25, o'r blaen mae'r Gwasanaeth wedi addasu'r ffioedd yn unol â'r gyfradd chwyddiant ar y pryd. Fodd bynnag, hyd yma, ni wnaed unrhyw benderfyniad ynghylch lefel y ffioedd ar gyfer y tymor nesaf.

**6. Adroddiad yr Harbwrfeistr.** Bydd Harbwrfeistr Aberdyfi yn darparu crynodeb o'r materion Mordwyo a Gweithredol a wnaed ac a brofwyd yn y cyfnod rhwng mis Mawrth 2023 a mis Hydref 2023, gan gynnwys materion cynnal a chadw. Mae copi o'i adroddiad ynghlwm.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi** |
| **DYDDIAD** | **17 Hydref 2023** |
| **TEITL** | **Adroddiad yr Harbwrfeistr** |
| **AWDUR** | **W. Stockford. Harbwrfeistr Aberdyfi** |

**H 1 Materion Mordwyo**

1.1 Mae'r sianel fordwyo i harbwr Aberdyfi wedi bod yn cael ei monitro gan staff yr harbwr dros yr haf. Mae'r sianel yn dal i fod yn ddeinamig ei natur, sy'n golygu bod rhaid i staff yr harbwr gynnal arolygon rheolaidd ar yr afon i bennu i ba raddau mae'r banciau tywod yn symud.

1.2 Bydd staff yr Harbwr yn parhau i fonitro cwrs y sianel ac yn gofyn i gael symud y cymhorthion mordwyo pan fo angen, er mwyn sicrhau eu bod yn darparu'r llwybr mwyaf diogel i mewn ac allan o'r harbwr.

1.3 Mae'r Gwasanaeth yn cynghori bod yr holl farciau mordwyo angenrheidiol yn eu lle cywir ar hyn o bryd, ac nid oes unrhyw Hysbysiad i Forwyr mewn grym am y tro.

1.3.1 Disgwylir y bydd archwiliad blynyddol o'r cymhorthion mordwyo ar y ffordd i Harbwr Aberdyfi yn cael ei wneud gan yr Awdurdod Goleudai Cyffredinol, Trinity House, ar 11 Hydref 2023. Bydd y Gwasanaeth yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor am y canlyniad unwaith y bydd yr adroddiad wedi cyrraedd.

1.4 Hoffai'r Gwasanaeth atgoffa morwyr o'r angen i fordwyo'r sianel 1.5 awr naill ochr i'r penllanw wrth fordwyo cwch sydd â'i dyfnder yn y dŵr yn fwy na 1.5 metr.

1.5 Rydym hefyd yn atgoffa morwyr y dylid cysylltu â swyddfa'r harbwr cyn dod i mewn neu adael yr harbwr, i dderbyn y wybodaeth ddiweddaraf am y tywydd a mordwyo. Bydd newidiadau i unrhyw gymhorthion mordwyo yn cael eu cylchredeg drwy Hysbysiad Lleol i Forwyr.

**H 2 Materion Gweithredol**

2.1 Mae'r gwaith o adeiladu'r glan cei newydd yn yr harbwr fwy neu lai wedi'i gwblhau, dim ond ychydig o waith adferol sydd ar ôl i'w wneud bellach. Mae hyn yn cynnwys darparu cyflenwad trydanol i gamlath (*davit*) ar ochr ddwyreiniol y cei, er budd y pysgotwyr lleol, a gwarchod wyneb a chornel ddwyreiniol wal y cei drwy *fendering*.

2.1.1 Bydd pâr o giatiau hefyd yn cael eu gosod ar draws y fynedfa i lanfa'r harbwr, i wella diogelwch y cyhoedd, pan fydd gwaith pysgota yn digwydd yn y lleoliad hwnnw.

2.1 Er gwaethaf y tywydd gwael, mae symudiadau'r cychod yn yr harbwr wedi parhau drwy'r haf, gyda chychod sy'n ymweld yn defnyddio angorfeydd yr ymwelwyr sydd o fewn yr aber.

2.2.1 Yn anffodus fodd bynnag, ar ddechrau'r cyfnod prysur, bu rhaid i'r Gwasanaeth ddelio â digwyddiad ar yr aber oedd yn ymwneud â thri bad dŵr personol a chwch pŵer. Mae ymchwiliad ar y cyd â Heddlu Gogledd Cymru i amgylchiadau'r digwyddiad yn parhau,

mewn perthynas â throseddau posib a ddatgelwyd o dan y ddeddfwriaeth a ddaeth i rym yn ddiweddar, y *Merchant Shipping (Watercraft) Order 2023*.

2.3 Mae cyflwr strwythurol adeilad swyddfa'r harbwr yn parhau i beri pryder. Fel yr adroddwyd yn flaenorol, mae adran Eiddo'r Cyngor yn ymwybodol o'r mater. Ar hyn o bryd mae'r Gwasanaeth yn edrych ar ail-leoli staff yr harbwr i eiddo dros dro fel mesur interim, hyd nes y gwneir penderfyniad ar ddyfodol yr adeilad.

**H 3 Cynnal a Chadw**

3.1 Cyn dechrau cyfnod yr haf fe wnaed gwaith cynnal a chadw ar angorfeydd yr ymwelwyr, a darparwyd offer newydd ar gyfer yr angorfeydd. Bu contractwr angorfeydd lleol wedyn yn gosod yr angorfeydd ar gost net o £260.00 i'r Gwasanaeth.

3.2 Fe wnaed gwaith cynnal a chadw ar injans cwch patrolio Powercat yr harbwr cyn dechrau'r tymor prysur. Cafodd y gwaith hwn ei wneud gan gwmni lleol o Wynedd ar gost net o £1143.53 i'r Gwasanaeth.

3.2.1 Mae'r cwch yn parhau i berfformio'n effeithlon, a chynhelir archwiliadau blynyddol ar y cwch er mwyn sicrhau ei bod yn cydymffurfio â gofynion morio'r Asiantaeth Morwrol a Gwylwyr y Glannau, yng nghyswllt safonau adeiladwaith a chyfarpar y cwch.

3.3 Drwy gydol cyfnod yr haf, mae staff wedi parhau i fonitro a chynnal a chadw'r cymhorthion mordwyo yn y sianel fordwyo, gan dderbyn cymorth pan oedd angen gan gontractwr angorfeydd lleol.

3.4 Mae staff yr Harbwr wedi cychwyn gwaith cynnal a chadw ar y meinciau eistedd sydd ar ffrynt yr harbwr. Bydd y gwaith yn parhau dros y gaeaf.

**H 4 Materion Eraill**

4.1 Mae'r Gwasanaeth yn ddiolchgar am ymdrechion rhanddeiliaid lleol wrth dreialu cyfarpar i gael gwared ar gasgliad mawr o dywod oedd wedi hel ar y llithrfa sydd gerllaw Clwb Hwylio Dyfi a gorsaf y Bad Achub. Mae'r broses yn parhau a bydd o bosib yn cael ei hadolygu.

4.2 Mae'r Gwasanaeth dal yn gobeithio y gellir darparu gwasanaethau trydan a dŵr yng Nghompownd yr harbwr, i gynorthwyo pysgotwyr lleol gyda'u gwaith pysgota. Mae'r Gwasanaeth yn gwerthfawrogi'r ymdrechion gan aelodau'r Grŵp Gweithredu Lleol ar Bysgodfeydd (FLAG) wrth geisio sicrhau cyllid ar gyfer y cynllun.


4.3 Mae carcasau anifeiliaid sy'n golchi i'r lan ar y blaendraeth yn parhau i olygu sawl diwrnod o waith ymatebol gan staff yr harbwr, wrth gasglu a chael gwared ar yr anifeiliaid dan sylw. Mae'r Gwasanaeth yn gofyn i bobl roi gwybod cyn gynted â phosib os gwelant garcas, fel bod modd cymryd y camau angenrheidiol ar unwaith.

**H5 Digwyddiadau**

5.1 Cynhaliwyd y digwyddiadau a ganlyn yn yr harbwr yn ystod yr haf;

- Digwyddiadau nofio
- Digwyddiadau hwylio a gynhaliwyd gan Glwb Hwylio Dyfi
- Digwyddiad hwylio cenedlaethol y Noble Marine Allen RS 3000
- Dyfi Fest


5.2 Dymuna'r Gwasanaeth gynghori trefnwyr digwyddiadau yn eiddo'r harbwr yn y dyfodol y dylid darparu'r wybodaeth berthnasol am y digwyddiad ar y cyfle cyntaf. Bydd hyn yn helpu'r Gwasanaeth i benderfynu a ddylid eu hawdurdodi, ynghyd â'r prosesau gweinyddol a staffio.


Please be advised that the bar is only passable 3 hours either side of high water.
N
Aberdyfi
Harbour Master's Office
YSM 4 Knots
Fl.Y.2s
Bar No2
Fl.R.5s
No 3 South Spit
Q.G
No 5
Fl.G.4s
No 7
Fl.G.2s
Bar No1
Fl.G.5s
Aberdyfi Outer Buoy
Iso W.4
Aberdyfi Harbour
Phone 01654 767626
Mobile 07879 433148
VHF Ch 12 & 16
williamstockford@gwynedd.llyw.cymru
September 2023
Outer Buoy Lat 52° 32.000'N Long 004° 05.550'W
Bar Buoy No1 Lat 52° 32.159'N Long 004° 04.782'W
Bar Buoy No2 Lat 52° 32.204'N Long 004° 04.743'W
No3 South Spit Lat 52° 32.165'N Long 004° 04.541'W
No5 Lat 52° 32.173'N Long 004° 04.040'W
No7 Lat 52° 32.252'N Long 004° 03.391'W
YSM 4 Knots Lat 52° 32.486'N Long 004° 02.878'W
NOT FOR NAVIGATION
Please contact the Harbour Office on arrival at the Outer Buoy for any updates to this chartlet

| HARBWR ABERDYFI | Perfformiad Ariannol am y cyfnod 1 Ebrill 2023 at 31 Mawrth 2024 - Adolygiad Awst 2023 | | |
|---|---|---|---|
| | CYLLIDEB 1/4/23 at 31/3/24 | GWARIANT A RHAGWELIR 1/4/23 at 31/3/24 | GOR (TAN) |
| Gwithwyr | 65,696 | 68,074 | 2,378 |
| | | | |
| Eiddo | 24,750 | 26,584 | 1,834 |
| | | | |
| Trafnidiaeth | 860 | 733 | (127) |
| | | | |
| Gwasanethau a Cyflenwadau | 8,080 | 9,234 | 1,154 |
| | | | |
| Incwm | (43,730) | (48,823) | (5,093) |
| | | | |
| **Cyfanswm** | **55,656** | **55,802** | **146** |

# Dashfwrdd Rheoli Perfformiad Economi a Chymuned


## Cyfanswm nifer cwsmeriaid (cytundebau blynyddol) ar angorfeydd yn harbyrau Gwynedd





| | 2021/22 | 2022/23 | Uchelgais 2023/24 | Ionawr | Chwefror | Mawrth | Ebrill | Mai | Mehefin | Gorffennaf | Awst | Medi | Hydref | Tachwedd | Rhagfyr | Ionawr | Chwefror | Mawrth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | 2023 | | | | | | | | | | | | 2024 | | |
| Nifer cwsmeriaid Aberdyfi | 76 | 72 | 72 | | | | 13 | 73 | 73 | 73 | 73 | 73 | | | | | | |
| Nifer cwsmeriaid Abermaw | 54 | 64 | 64 | | | | 26 | 70 | 70 | 71 | 71 | 71 | | | | | | |
| Nifer cwsmeriaid Porthmadog | 112 | 104 | 104 | | | | 61 | 72 | 80 | 93 | 99 | 106 | | | | | | |

**Sylwadau:** Nod ac amcan yw ceisio cynnal nifer cwsmeriaid a sicrhau cefnogaeth a ffyddlondeb cwsmeriad i barhau i angori yng Ngwynedd. Mae'r wasgfa ariannol yn golygu fod nifer o gwsmeriaid wedi eu denu i Wynedd gan, yn gyffredinol, fod y gost yn is. Rhai cwsmeriaid hefyd wedi dychwelyd yn dilyn diwedd i gyfyngiadau Covid. Mae trefn ceisio am angorfa ar lein yn weithredol ers Ebrill 2023.

# Dashfwrdd Rheoli Perfformiad Economi a Chymuned





**Sylwadau:** Roedd yr holiadur ar-lein yn 'fyw' o fis Gorffennaf 2023. Roedd 89% o'r ymatebwyr o'r farn fod eu profiad o'r harbyrau yn 'Dda Iawn' (56%) neu'n 'Dda' (33%) gyda mwyafrif yn nodi fod yr harbyrau yn lan a thaclus a bod y staff yn glên, proffesiynol a gwybodus. Doedd neb o'r farn fod yr harbyrau'n 'Wael' neu'n 'Wael Iawn'. Yn anffodus roedd y nifer o ymatebwyr yn isel ac felly er mwyn cael darlun mwy cywir a manwl byddem yn gyrru linc i'r holiadur i bob daliwr angorfa pan fyddem yn gohebu gyda hwy yn 2024




**Sylwadau:** Mae'r cymorthyddion oddi fewn Categori 3 Cymhorthyddion Mordwyo Cenedlaethol. Mae cymhorthydd mordwyo morglawdd Tywyn wedi ei ail-leoli ers mis Mawrth 2023 ac fe newidwyd marc mordwyo grwyn 1 traeth Abersoch yn ystod mis Mai 2023.

Dashfwrdd Rheoli Perfformiad Economi a Chymuned




| | |
|---|---|
| Sylwadau | Roedd tri chwarter o'r ymatebwyr (75%) o'r farn fod eu profiad o'r traethau yn 'Dda Iawn' (59%) neu'n 'Dda' (16%), ac o'r 177 ymatebodd nododd 53 (neu 30%) fod Wardeniaid Traethau yn gymwynasgar, proffesiynol a gwybodus. Derbyniwyd hefyd sylwadau cadarnhaol am ddiogelwch y traethau, yn benodol rheolaeth effeithiol o fadau pŵer, hygyrchedd, glendid ac ansawdd dŵr ymdrochi. Nododd rhai bod cŵn ar draethau yn broblemus, bod diffyg darpariaeth biniau sbwriel mewn rhai safleoedd a bod angen gwella ansawdd glendid a chyflwr rhai toiledau cyhoeddus. Roedd rhai o'r ymatebwyr hefyd o'r farn bod y traethau yn "rhy brysur" gyda nifer yn nodi bod gormod o 'jet sgis' yn ein prif gyrchfannau. |

# Rheoli Perfformiad Economi a Chymuned

| Mesurydd | Adrodd Lefel | Amlder | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | Uchelgais 2023/24 | Gwir 2023/24 | 2023 Ionawr | Chwefror | Mawrth | Ebrill | Mai | Mehefin | Gorffennaf | Awst | Medi | Sylwadau/Rheswm dros y perfformiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm nifer cwsmeriaid (cytundebau blynyddol) ar angorfeydd harbyrau Cyngor Gwynedd.** | Adran | Misol | | | | **240** | **250** | | | | | | | | | | Nod ac amcan yw ceisio cynnal nifer cwsmeriaid a sicrhau cefnogaeth a ffyddlondeb cwsmeriaid i barhau i angori yng Ngwynedd. Mae'r wasgfa ariannol yn golygu fod nifer o gwsmeriaid wedi eu denu i Wynedd gan, yn gyffredinol, fod y gost yn is. Rhai cwsmeriaid hefyd wedi dychwelyd yn dilyn diwedd i gyfyngiadau Covid. Mae trefn ceisio am angorfa ar lein yn weithredol ers Ebrill 2023. |
| Nifer cwsmeriaid Aberdyfi | Adran | | 47 | 76 | 72 | 72 | 73 | | | | 13 | 73 | 73 | 73 | 73 | 73 | Nifer o gwsmeriaid cychod pŵer wedi penderfynu cael angorfa yn lle lansio'n dyddiol. Hyn wedi cyfrannu at gadw nifer angorfeydd yn weddol sefydlog. Hefyd wedi llwyddo i ddenu nifer o gwsmeriaid newydd. Mae newid yn y sianel a chasgliadau tywod yn yr harbwr yn golygu fod llai o lefydd addas i leoli angorfeydd na'r flwyddyn flaenorol. |
| Nifer cwsmeriaid Abermaw | Adran | | 31 | 54 | 64 | 64 | 71 | | | | 26 | 70 | 70 | 71 | 71 | 71 | |
| Nifer cwsmeriaid Porthmadog | Adran | | 64 | 112 | 104 | 104 | 106 | | | | 61 | 72 | 80 | 93 | 99 | 106 | Niferoedd sefydlog. Yr harbwr wedi llwyddo i ddenu nifer o gwsmeriaid newydd, er fod nifer o gwsmeriaid wedi rhoi gorau i'w hangorfeydd oherwydd oedran neu iechyd. Nifer o gwsmeriaid yn parhau i gymryd angorfa ar pontŵn Clwb Hwylio Madog. |
| **Boddhad Cwsmer Harbyrau Gwynedd %** | Gwasanaeth | Blynyddol | | | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| ***Da Iawn*** | | | | | | | | | | | | | | | | 56% | |
| ***Da*** | | | | | | | | | | | | | | | | 33% | |
| ***Boddhaol*** | | | | | | | | | | | | | | | | 0% | |
| ***Gwael*** | | | | | | | | | | | | | | | | 0% | |
| ***Gwael Iawn*** | | | | | | | | | | | | | | | | 0% | |
| ***Heb Ymateb*** | | | | | | | | | | | | | | | | 11% | |
| **Nifer Gychod Pwer / Badau Dŵr Personol wedi eu trwyddedu. Gwybodaeth er cadarnhau fod yna sutem cofrestru penodol ar gyfer adnabod pob cwch** | Gwasanaeth | | 1680 | 2,434 | **2,380** | 2,380 | 2,509 | | | | 921 | 1,759 | 1,876 | 2,204 | 2,498 | 2,509 | Nod ac amcan cofrestru yw sicrhau cynydd yn niferoedd o fadau pwer sydd wedi cofrestru er ceisio sicrhau bod pob bad ar arfordir Gwynedd yn arddangos hawlen cofrestru Cyngor Gwynedd. |
| **Canran Cymhorthion Mordwyo o fewn ardal harbwr ac ar arfordir Cyngor Gwynedd a fu ar gael ar eu safleoedd a rhain yn unol ac archwiliad blynyddol** | Gwasanaeth | | 98% | 98% | 98% | 100% | 100% | 98.00% | 98.00% | 98.00% | 100.00% | 100.00% | | | | | Mae'r cymorthyddion oddi fewn Categori 3 Cymhorthyddion Mordwyo Cenedlaethol. Mae cymhorthydd mordwyo morglawdd Tywyn wedi ei ail-leoli ers mis Mawrth 2023 ac fe newidwyd marc mordwyo grwyn 1 traeth Abersoch yn ystod mis Mai 2023. |
| **% Boddhad Cwsmer Traethau Gwynedd** | Adran | Blynyddol | | | | | | | | | | | | | | | |
| ***Da iawn*** | | | | | | | | | | | | | | | | 59% | |
| ***Da*** | | | | | | | | | | | | | | | | 16% | |
| ***Boddhaol*** | | | | | | | | | | | | | | | | 12% | |
| ***Gwael*** | | | | | | | | | | | | | | | | 7% | |
| ***Gwael Iawn*** | | | | | | | | | | | | | | | | 5% | |
| ***Heb Ymateb*** | | | | | | | | | | | | | | | | 1% | |